**Cyngor Cymuned Abergwyngregyn**

**Adroddiad Blynyddol 2021-22**

**Cyflwyniad**

> Mae gan Gyngor Cymuned Abergwyngregyn saith aelod a chlerc.

> Mae'r Cyngor yn derbyn cyllideb flynyddol o £3,000 gan Gyngor Sir Gwynedd, ac mae'r Cyngor yn cyfarfod yn chwarterol (yn ogystal a chyfarfodydd brys fel yr angen).

**Diweddariad Cyllidol**

> Mae'r Cyngor wedi cynnal coffrau iach drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Clerk wedi ymgysylltu'n gyson gyda'r cyfrifyddion a'r arolygyddion perthnasol.

> Mae'r Clerc wedi gosod copi caled o'r Adroddiad Blynyddol yn hysbysfwrdd y pentref a chopi electroneg ar wefan y Cyngor, yn unol a'r gofyn.

**Ymgysylltu Cymunedol**

> Mae'r Clerc wedi ymgysylltu gyda thrigolion ar ran y Cyngor drwy rannu gwybodaeth o ddiddordeb a pherthnasedd lleol ar ebost, megis diweddariadau ar waith ffordd yr A55.

> Mae Cofnodion, Agenda, ac Adroddiadau Cyllidol wedi eu cynhyrchu a'u cyhoeddi ar wefan Cyngor Cymuned Abergwyngregyn yn unol a'r gofynion.

> Mae'r Cyngor wedi trefnu sesiynau Tacluso'r Pentref gan gynnig cyfle i drigolion lleol gyfarfod yn yr awyr agored a sicrhau fod canllawiau Covid yn cael eu dilyn.

> Mae'r Clerc wedi cydlynnu rhannu cennin pedr ymysg trigolion lleol. Byddai'r cennin pedr wedi cael eu dinistro fel rhan o waith ffordd yr A55 oni bai am hyn.

**Cyraeddiadau**

> Mae parcio yn parhau i fod yn broblem fawr yn y pentref ac mae'r Cyngor Cymuned wedi gweithio'n agos gyda'r unigolion a'r asiantaethau perthnasol, yn cynnwys aelodau etholedig, mewn ymgais i ddatrys y mater. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithio'n agos gyda Phwyllgor Adfywio Abergwyngregyn, Ynni Hydro Anafon a Chyngor Gwynedd i archwilio datrysiadau posib.

> Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael a materion cynnal a chadw cyffredinol yn ymwneud a llwybrau, sbwriel, baw cwn a thorri gwrychoedd.

> Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu cyfraniad blynyddol tuag at gynnal a chadw tir eglwys y pentref.

> Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i gefnogi elusennau ac achosion da lleol yn cynnwys Eisteddfod yr Urdd a Ty Gobaith drwy wneud cyfraniadau ariannol.

**Blaenoriaethau**

> Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn ariannol nesaf, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd angen iddo dreulio cryn amser yn trafod problemau parcio'r pentref. Mae'r sesiynau Tacluso'r Pentref hefyd wedi amlygu'r broblem gynyddol o sbwriel a baw cwn yn y gymuned leol a bydd hyn yn galw am sylw pellach gan y Cyngor.

> Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd rhan ym mhrosiect 'Ardal Ni 2035' fydd yn cael ei gydlynnu gan Gyngor Gwynedd gyda'r amcan o ymgysylltu gyda thrigolion lleol ar faterion megis tai ac adfywio.

> Mae disgwyl i Abergwyngregyn dderbyn 70 coeden am ddim fel rhan o'r prosiect i ddathlu 70 mlwyddiant Parc Cenedlaethol Eryri, a bydd y Cyngor yn cydlynnu cyfranogiad y pentref.

> Bydd y Cyngor yn rhan o brosiect cadwraeth newydd ar gyfer adeiladau cofrestredig.

> Mae'r Clerc mewn cyswllt gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a *Network Rail* i drafod llifogydd o'r Bont Rheilffordd lawr i lan y mor ar hyd Llwybr yr Arfordir sy'n broblem barhaus.

> Bydd y Cyngor yn ceisio cynnal cyfarfodydd ar ffurf hybrid i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd ymuno drwy Zoom pe baent yn dymuno codi unrhyw faterion.

**Clerc:** Rita Roberts - 01248 681008